**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 31 MAWRTH 2020 DRWY SKYPE**

**Yn bresennol:** Mrs Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Mrs Cath Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser dechrau:** 09:30
**Amser gorffen:** 12:45

**Ymddiheuriadau:** Nid yw'n berthnasol

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Ceri Stradling fuddiant hyd braich yn Ynys Môn fel perchennog eiddo.

## 2. Brîff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad o'r cyfarfod â Lisa James. Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru bod y cyfnodau ymgynghori ar gyfer Caerffili, Caerdydd, Wrecsam a Bro Morgannwg wedi'u gohirio tan 15 Mehefin 2020.

2.2. Cadarnhawyd nad oes unrhyw gynlluniau i ohirio etholiadau Llywodraeth Leol ar hyn o bryd.

2.3. **Gweithredu –** Prif Weithredwr i gysylltu â'r pedwar cyngor, cyn 15 Mehefin 2020, i adolygu'r gohiriadau presennol o gyfnodau ymgynghori'r arolygon.

2.4. Penodwyd Josh Lovell (Swyddog Arolygon) i gwblhau Arolwg Etholiadol Casnewydd gyda Cher Cooke (Swyddog Arolygon). Bydd Cher Cooke yn gorffen ei harolygon ym mis Medi, yn barod ar gyfer gwaith Comisiwn Ffiniau i Gymru.

2.5. Mae tîm Llywodraeth Leol LlC wedi cael drafft cyntaf gorchymyn Sir Fynwy. Os yw dyddiad 15 Mehefin 2020 yn addas, cynhelir yr ymgynghoriad cychwynnol ar y ffiniau â Chyngor Sir Fynwy a Chynghorau Tref a Chymuned.

2.6. **Gweithredu –** Prif Weithredwr i gysylltu â Phrif Weithredwr Sir Fynwy mewn perthynas â'r llythyr gan Un Llais Cymru.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 03 Mawrth 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 4. Materion yn codi

Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 24 Mawrth, gan y Prif Weithredwr, a nodwyd cynnydd mewn perthynas â'r canlynol:

4.1. **Mater 1** – Mae'r Arolwg Pobl yn cau ar 31 Mawrth ac mae 80% o'r staff wedi ymateb hyd yn hyn.

4.2. **Mater 2** – Bydd Holiaduron ar ôl Arolygon yn cael eu gohirio oherwydd y sefyllfa â'r coronafeirws.

4.3. **Mater 3** – Diweddarwyd yr Adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd o'r Prosiect Trawsnewid TGCh ar ôl y cyfarfod diwethaf, a chaiff y fersiwn derfynol ei ddosbarthu i'r Comisiynwyr.

4.4. **Mater 4** – Cytundeb Fframwaith. Mae hwn yn mynd rhagddo ac yn cael ei arwain gan y Pennaeth Busnes.

## 5. Arolwg Etholiadol Sir y Fflint – Adroddiad Terfynol

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Mawrth 2020, gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad a chynigiodd enwau i'r wardiau etholiadol.

5.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 66</u>**

5.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Argoed and New Brighton | Argoed a New Brighton |
| Hawarden Aston | Penarlâg: Aston |
| Bagillt | Bagillt |
| Broughton North East | Gogledd-ddwyrain Brychdyn |
| Broughton South | De Brychdyn |
| Brynford and Halkyn | Brynffordd a Helygain |
| Buckley Bistre East | Bwcle: Dwyrain Bistre |
| Buckley Bistre West | Bwcle: Gorllewin Bistre |
| Buckley Mountain | Bwcle: Mynydd |
| Buckley Pentrobin | Bwcle: Pentrobin |
| Caergwrle, Llanfynydd and Treuddyn | Caergwrle, Llanfynydd a Threuddyn |
| Caerwys | Caerwys |
| Cilcain | Cilcain |
| Connah's Quay Central | Canol Cei Connah |
| Connah's Quay Golftyn | Cei Connah Golftyn |
| Connah's Quay South | De Cei Connah |
| Connah's Quay Wepre | Cei Connah Gwepra |
| Ewloe | Ewloe |
| Flint Castle | Y Fflint: Castell |
| Flint Coleshill | Y Fflint: Cynswllt |
| Flint Oakenholt | Y Fflint: Oakenholt |
| Flint Trelawny | Y Fflint: Trelawny |
| Greenfield | Maes Glas |
| Gwernaffield and Gwernymynydd | Gwernaffield a Gwernymynydd |
| Higher Kinnerton and Hope | Kinnerton Uchaf a’r Hôb |
| Holywell Central | Canol Treffynnon |
| Holywell East | Dwyrain Treffynnon |
| Holywell West | Gorllewin Treffynnon |
| Leeswood | Coed-llai |
| Llanasa and Trelawnyd | Llanasa a Threlawnyd |
| Hawarden Mancot | Penarlâg: Mancot |
| Mold Broncoed | Yr Wyddgrug Broncoed |
| Mold East | Dwyrain Yr Wyddgrug |
| Mold South | De’r Wyddgrug |
| Mold West | Gorllewin Yr Wyddgrug |
| Mostyn | Mostyn |
| Northop | Llaneurgain |
| Penyffordd | Penyffordd |
| Saltney Ferry | Saltney Ferry |
| Sealand and Queensferry | Sealand a Queensferry |
| Shotton East and Higher | Dwyrain ac Uwch Shotton |

| | |
|---|---|
| Shotton West | Gorllewin Shotton |
| Whitford | Chwitffordd |

## 6. Arolwg Etholiadol Ynys Môn – Adroddiad Drafft

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 24 Mawrth 2020, gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad a'r enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol.

6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**Cyfanswm nifer yr aelodau – 35**

6.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Isod, ceir rhestr o'r enwau cytûn yn Gymraeg a Saesneg.

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Aethwy | Aethwy |
| Braint | Braint |
| Bro Aberffraw | Bro Aberffraw |
| Bro'r Llynnoedd | Bro'r Llynnoedd |
| Canolbarth Môn | Canolbarth Môn |
| Cefni | Cefni |
| Crigyll | Crigyll |
| Lligwy | Lligwy |
| Parc a'r Mynydd | Parc a'r Mynydd |
| Seiriol | Seiriol |
| Talybolion | Talybolion |
| Tref Cybi | Tref Cybi |
| Twrcelyn | Twrcelyn |
| Ynys Gybi | Ynys Gybi |

## 7. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 23 Mawrth 2020, gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

7.2. Crybwyllwyd bod Adroddiad Terfynol Rhondda Cynon Taf wedi'i gyhoeddi ar 25 Mawrth 2020, ar ôl cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol y Cyngor ar 19 Mawrth. Trafodwyd p'un a gellid llacio'r cyfnod ymateb o chwe wythnos i Lywodraeth Cymru oherwydd COVID-19.

7.3. Crybwyllwyd bod yr ymgynghoriadau drafft ar gyfer Wrecsam, Caerffili, Bro Morgannwg a Chaerdydd wedi'u gohirio oherwydd COVID-19, ond bod ymgynghoriad drafft Casnewydd yn mynd rhagddo. Ni fydd unrhyw opsiynau ar gyfer yr ardaloedd hyn nes i'r ymgynghoriadau ddod i ben. Fodd bynnag, caiff argymhellion ar gyfer Casnewydd eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn ar 12 Mai.

7.4. Rhoddwyd sicrwydd i Gomisiynwyr bod y Swyddogion Arolygon wedi cael camau i hwyluso gweithio gartref yn effeithiol. Dywedodd y Comisiynwyr y byddai'n well ganddynt gael copïau papur o fapiau a chynrychiolaethau, pe byddai hynny'n bosibl. **Cytunwyd** y bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn trafod yn y Cyfarfod Rheoli nesaf a ellir caniatáu i rai aelodau staff weithio yn y swyddfa er mwyn anfon copïau papur, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Comisiynwyr.

7.5. **Cytunwyd**, oherwydd COVID-19, y bydd angen gohirio cyhoeddi'r Adroddiad Drafft ar gyfer Arolwg Etholiadol Ynys Môn nes i'r arolygon gohiriedig gael eu cwblhau. Ar hyn o bryd, y nod yw ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

7.6. Crybwyllwyd mai ein nod yw cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol ar gyfer Arolwg Etholiadol Sir y Fflint yng nghanol mis Mehefin.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 12 Mawrth 2020, gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi'u rhoi ar waith.

8.2. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu risg newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn ystyried y cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Byddai camau gweithredu lliniarol yn cynnwys staff yn gweithio gartref a chynnal cyfarfodydd drwy Skype ac ati. **Cytunodd** y Rheolwr Cyllid i ddrafftio risg gorfforaethol newydd i gwmpasu hyn.

8.3. **Cytunwyd** y dylid trosglwyddo'r holl gamau lliniarol yn ymwneud ag Arolwg Sir Fynwy i risg CR6.

## 9. Adroddiad ar y Gyllideb

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Mawrth 2020, gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y sefyllfa gyfredol yn ymwneud â'r gyllideb.

9.2. **Nodwyd** y byddai'r tanwariant arian parod diwedd blwyddyn oddeutu £12,000 (neu £14,000 gan ddibynnu ar b'un a chaiff £2,000 ychwanegol ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru). Dyma'r tanwariant isaf am rai blynyddoedd ac roedd hyn o ganlyniad i gaffaeliad amserol plotydd a chronfa ddata newydd, yn bennaf.

9.3. Trafodwyd estyniad posibl i'r amserlen cyfrifyddu oherwydd COVID-19, a **chytunodd** y Rheolwr Cyllid i edrych ar hyn. Crybwyllodd fod Swyddfa Archwilio Cymru eisoes yn gorfod gwneud newidiadau i'w hamserlen, ond bod Llywodraeth Cymru'n annhebygol o wneud newidiadau gan fod gan ei hamserlen ddyddiad cau hwyrach, sef mis Awst.

## 10. Adroddiad ar Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar 26 Chwefror 2020

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid, dyddiedig 12 Mawrth 2020, a **nodwyd** ei gynnwys.

10.2. Crybwyllwyd ar ôl ymholiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, bod Deloitte wedi cytuno i adolygu sgôr archwilio'r Comisiwn ar gyfer rheoli risg, gan ei bod wedi gostwng i 'cymedrol' ar ôl bod yn 'sylweddol' mewn blynyddoedd blaenorol. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cysylltu ag Ian Howse o Deloitte i fynd ar drywydd y mater hwn. Ar ôl ei ystyried, mae Deloitte wedi penderfynu cadw'r sgôr cymedrol wreiddiol.

10.3. Codwyd y mater o derfynau amser. **Cytunodd** y Prif Swyddog Gweithredol i drafod hyn yn y Cyfarfod Rheoli nesaf ac adrodd yn ôl i'r Comisiynwyr.

## 11. Datganiad Llywodraethu 2019-20

11.1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid, dyddiedig 12 Mawrth, a **nodwyd** ei gynnwys.

11.2. Ynghylch paragraff 3.3, **cytunodd** y Prif Swyddog Gweithredol ychwanegu brawddeg yn esbonio'r adolygiad o strwythur staffio'r Comisiwn a'r newidiadau canlyniadol.

11.3. Ynghylch paragraff 3.8, **cytunodd** y Prif Swyddog Gweithredol i ychwanegu'r heriau canlynol yr ymatebodd y Comisiwn yn gadarnhaol iddynt, sef ailstrwythuro'r staff, ymateb y Comisiwn i'r oedi yn Arolwg

Etholiadol Sir Fynwy, a rhoi'r prosiect TGCh ar waith ar ôl gosod system ffôn newydd.

11.4. **Cytunodd** y Comisiwn â'r Datganiad Llywodraethu, yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt uchod.

## 12. Cynllun Gweithredol 2020/2021

12.1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol, dyddiedig 24 Mawrth.

12.2. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn anfon e-bost at y Prif Swyddog Gweithredol ag unrhyw newidiadau, ac y byddai hithau'n creu Fersiwn 2 a'i hanfon drwy'r e-bost at y Comisiynwyr, Llywodraeth Cymru a Julie James/y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar gyfer sylwadau.

## 13. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol

13.1. **Nodwyd** bod y rhain wedi'u trafod eisoes yn ystod y cyfarfod.

13.2. **Cytunodd** y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i edrych ar yr arolygon gohiriedig eto.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nodwyd** cynnwys y Calendr. Nid oedd unrhyw newidiadau.

## 15. Unrhyw fater perthnasol arall

15.1. Trafodwyd trefniadau dros dro yn ymwneud â threuliau'r Comisiynwyr. Dylai'r Comisiynwyr anfon eu hawliadau treuliau drwy'r e-bost at y Rheolwr Cyllid erbyn hyn, ond dylent anfon copïau papur drwy'r post hefyd a bydd y Rheolwr Cyllid yn anfon slipiau cyflog wedi'u hamgryptio yn ôl drwy'r e-bost. Gofynnodd David Powell am gopi electronig o'r ffurflen hawlio.

15.2. Trafodwyd newyddion am ffioedd Comisiynwyr, gan mai 31 Mawrth yw'r dyddiad cau. Bydd Julie May yn anfon neges e-bost at y Prif Swyddog Gweithredol am hyn.

15.3. Gofynnodd Theo Joloza pe gellid ychwanegu David Powell a Julie May at y trefniadau gweithredol newydd, gan eu bod yn byw yn lleol ac wedi cynnig mynd i mewn i'r swyddfa, pe byddai angen. **Cytunodd** y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i edrych ar hyn.

15.4. Cytunwyd pe byddai Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn cytuno ar enw lle yn Gymraeg, y dylid defnyddio'r enw hwnnw.

## 16. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 12 Mai 2020